

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 6ed 2018 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Gwynedd Jones, Alwyn Jones, Meilir Jones, Maldwyn Jones, Gethin Morris a'r clerc.

Croesawyd Meilir Jones i'w gyfarfod cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo Evans, Gary Thomas Dewi Pritchard, Eifion Davies, Rita Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Nodwyd buddiant y cynghorwyr gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ni chodwyd unrhyw fater.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Llywodraeth Cymru

i) Taliadau Claddu ar Gyfer Plant - yn dilyn yr ohebiaeth ym mis Tachwedd cafwyd cadarnhad fod Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb a'r Llywodraethau Lleol i beidio codi tal ar gladdedigaethau plant yng nghymunedau Cymru. Cafwyd cadarnhad y byddai cyllideb ariannol ar gael i'r cynghorau i ymdrin ag unrhyw golledion ariannol.

b) Cadwch Cymru'n Daclus

i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu cynllun diweddaraf a'r grantiau a oedd ar gael i gefnogi grwpiau gwirfoddol. Cytunwyd i ddsbarthu'r wybodaeth.

c) Un Llais Cymru

i) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - yn dilyn yr ohebiaeth ym mis Chwefror derbyniwyd taflenni gwybodaeth a chanllawiau i baratoi ar gyfer y rheoliadau newydd a oedd yn dod i rym ar y 25/05/18. Cytunodd y clerc i gael cyngor ar y camau priodol i sicrhau y byddai popeth mewn lle.

ch) Panel Annibynnol Cymru

Cafwyd cadarnhad fod y Panel wedi mabwysiadu'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19'. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion yn swyddogol yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-
C18/0054/04/LL – Trosi adeilad yn uned wyliau. Refail Isaf, Llanfor

d) Materion Ariannol.

i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)
- 2) CTHEM (TWE)
- 3) Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwentydd Frongoch a Llanfor)
- 4) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) - £157.00
- 5) Neuadd Llandderfel (Costau llogi) - £30

- 6) Neuadd Mynach (Costau Ilogi) - £30
- 7) Neuadd Sarnau (Costau Ilogi) - £20

iii) Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer cyfri'r fynwent ac unrhyw wariant annisgwyl a all'i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

- 1) Neuadd Sarnau - £450
- 2) Neuadd Mynach - £450
- 3) Neuadd Llandderfel - £450 (Maldwyn Jones yn datgan diddordeb)
- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
- 6) Ysgol Y Berwyn - £100.00
- 7) Ysgol Feithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) CFFI Meirionnydd - £200
- 9) Urdd Gobaith Cymru - Cylch Penllyn - £100
- 10) Cantref - £100 (Eilir Rowlands yn datgan buddiant)
- 11) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
- 12) Hosbis Tŷ'r Eos - £100
- 13) Ambiwylans Awyr Cymru -£100
- 14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
- 15) Gŵyl Cerdd Dant Bro Ffestiniog a'r Fro - £50

16) Cais ariannol gan bapur newydd Y Cyfnod/Corwen Times.

Trafodwyd y cais am gymorth ariannol a chytunwyd fod y papur yn ased amrhysiadwy i'r ardal ac y byddai'n syniad trafod y cais gyda gweddill o'r cynghorau cymuned yn yr ardal. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â hwy i drefnu cyfarfod i'w drafod.

dd) Materion Lleol

a) Cyflwr ffordd gefn o Landderfel i fferm Dolgadfa

Derbyniwyd neges gan un o drigolion Llandderfel ynglŷn â chyflwr y ffordd - draeniau wedi tagu a dŵr, mwd a dail ar ei hyd. Cadarnhaodd y clerc fod y mater wedi cael pasio'n mlaen i Gyngor Gwynedd

b) Plymen o rew rhwng Tŷ Newydd a Tyn Bwlch, Llandderfel.

Yn ystod y tywydd garw yn ddiweddar roedd pryder am ddiogelwch y gyrwyr a oedd yn teithio ar hyd y ffordd oherwydd y blymen rhew. Archwiliwyd y safle gan weithlu Cyngor Gwynedd a chafwyd cadarnhad fod y ffordd wedi cael ei raeanu yn syth. Roedd y clerc wedi pwysleisio fod angen cymryd camau pellach i arbed y dŵr rhag llifo i'r ffordd i osgoi'r broblem yn y dyfodol.

c) Cerrig wedi gosod o flaen Derfel Gadarn, Llandderfel.

Nodwyd pryderon y trigolion lleol y gall cerbydau daro yn erbyn y cerrig ychwanegol a oedd wedi cael eu Gosod o flaen y tŷ gan eu bod yn dod allan i'r ffordd. Cytunwyd i yrru'r mater ymlaen i Gyngor Gwynedd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai
1af yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**